16EG O IONAWR

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Twrnamaint Pêl Droed Bl 5 a 6

Wythnos yma, aeth dau dîm pêl droed bechgyn o flwyddyn 5 a 6, i gystadlu yn nhwrnamaint pêl droed Caerdydd a'r Fro. Perfformiodd y ddau dîm yn arbennig a llongyfarchiadau mawr i'r tîm wnaeth ennill. Bydd y tîm yma nawr, yn cystadlu yn y rownd nesaf. Diolch i'r staff sydd wedi bod wrthi yn hyfforddi.

### Cyhoeddi Adroddiad Estyn

Bydd ein hadroddiad Estyn yn cael ei gyhoeddi dydd Iau, yr 22ain o Ionawr. Byddwn yn rhannu'r linc gyda chi ar ein cyfrif instagram ac ar Group Ed/ trwy e-bost.

### Llau Pen

Gofynnwn yn garedig i chi rhoi gwybod i athro/ athrawes y dosbarth os oes achos o lau pen yn nosbarth eich plentyn. Os oes achos o lau pen yn y dosbarth byddwn yn eich hysbysu, a gofynnwn yn garedig i chi wirio gwallt eich plentyn a'u trin os oes ganddynt lau pen.

## Calendr

**Bore Agored y Feithrin**
**23.1.26**

**Colorfoto Lluniau dosbarthiadau**
**2.2.26**

# Eisteddfod yr Urdd

## Mae hi’n dymor Eisteddfod yr Urdd unwaith eto!

**Beth yw Eisteddfod yr Urdd?**

Mae Eisteddfod yr Urdd yn rhoi’r cyfle i ddisgyblion gystadlu mewn amryw o gystadlaethau megis unawdau, adrodd, cystadlaethau offerynnol a chystadlaethau grŵp.

**Ymaelodi gyda’r Urdd**

Er mwyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd mae rhaid i’ch plentyn fod yn aelod o’r Urdd. (Rhaid diweddaru aelodaeth bob blwyddyn).

Dyma linc i’r Porth ble fyddwch yn gallu ymaelodi eich plentyn. https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/ymaelodi-dy-hun-dy-blant-neu-deulu-gydar-urdd/

**Cystadlu yn yr Urdd (cystadlaethau unigol)**

Yn unol â gweledigaeth yr ysgol, rydym am sicrhau fod pawb sydd am gystadlu yn yr Urdd yn cael y cyfle i wneud.

Fel ysgol, byddwn yn rhoi'r unawdau (canu unigol) a’r darnau llefaru (adrodd unigol) ar gyfrif Teams dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 6. Byddwn yn cynnwys copi o eiriau’r unawdau a’r llefaru a chlipiau sain er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ymarfer a dysgu’r darnau. Rydym yn annog y disgyblion i ddysgu’r unawd a’r darn llefaru fel gwaith cartref.Ond byddwn hefyd yn dysgu’r darnau llefaru a’r unawdau i bob disgybl yn yr ysgol.

Fel llynedd, ni fyddwn yn dewis disgyblion i gynrychioli’r ysgol yn yr Eisteddfod Cylch .Yn hytrach, rydym am roi cyfle i bawb sydd am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd i gystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Os fyddwch yn dymuno i’ch plentyn gystadlu yn yr Eisteddfod gofynnwn i chi fel rhieni i’w cofrestru ar y Porth, sef system gofrestru’r Urdd.

https://www.urdd.cymru/cy/

Mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn yr ysgol ac fe allwn ni eu cofrestru os nad oes mynediad gennych i’r Porth.

**Dyddiad cau**

Dyddiad cau cofrestru disgyblion i gystadlu yn yr Eisteddfod, yw dydd Lun, y 9fed o Chwefror. Rhaid sicrhau eich bod wedi cofrestru eich plentyn i gystadlu cyn y dyddiad yma, neu raid sicrhau eich bod wedi gofyn i’r ysgol i gofrestru eich plentyn ar y Porth.

# Bore Agored y Feithrin

Rydym yn cynnal bore agored i ddarpar rieni ar ddydd Gwener y 23ain o Ionawr. Bydd cyfle i weld y dosbarth Meithrin a hefyd byddwn yn mynd am dro o gwmpas yr ysgol.Dewch i weld ein continwwm chwarae, yr ardal dysgu awyr agored, y Cwtch, y Nyth a pob dim arall! Croeso mawr i bawb.



## SWYDDI GWAG RHIANT-LYWODRAETHWYR – YSGOL TREGANNA

Ar hyn o bryd mae **dwy swydd wag** ar gyfer rhiant lywodraethwr ar y Corff Llywodraethol.

**Pwy yw Rhiant-Lywodraethwyr**

Caiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol i gynrychioli diddordebau rhieni'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw rhiant-lywodraethwyr yn gynrychiolwyr gorfodol o rieni. Maent yn aelod o gorff corfforaethol - y Corff Llywodraethu ac mae ganddynt yr un pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau â phob llywodraethwr arall. Mae gan riant-lywodraethwyr yr **hawl i arfer yr un pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau â llywodraethwyr eraill ac mae ganddynt yr un hawliau â llywodraethwyr eraill. Mae rhiant-lywodraethwyr yn gategori arbennig o lywodraethwr ac, fel cynrychiolwyr etholedig, maent mewn lle da i ddeall anghenion a safbwyntiau'r rhieni.**

Caiff rhiant lywodraethwyr eu hethol i wasanaethu am dymor o 4 blynedd.

**Beth ydw i'n ei wneud nesaf?**

Os hoffech fod yn rhiant-lywodraethwr, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen enwebu sydd wedi'i danfon atoch heddiw ar Group Ed/ e-bost, a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn **Dydd Llun 26 Ionawr.** Ni dderbynnir unrhyw enwebiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os derbynnir mwy o enwebiadau nag sydd o swyddi gweigion, caiff etholiad ei gynnal a gaiff ei benderfynu ar sail mwyafrif syml. Byddai amserlen unrhyw etholiad fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau:** | **Dydd Llun 26 Ionawr** |
| **Cyhoeddi papurau pleidleisio (os oes angen etholiad):** | **Dydd Gwener 30 Ionawr** |
| **Dychwelyd papurau pleidleisio:** | **Dydd Iau 12 Chwefror** |

## Patrwm Iaith wythnos nesaf

**Dyma batrwm iaith yr wythnos**

Alla i..? Alli di..?
Cei/ cewch
Na chei/ Na chewch

**Her**

Tybed ga i? Oes modd i mi?
Ydy hi'n gyfleus?

**Testun trafod yr wythnos**

Yr anrheg orau ges i erioed oedd…

**Cân yr wythnos**

Yws Gwynedd - Bae

**Idiom yr wythnos**

Crynu yn ei esgidiau